# Arwyr CNN

Beth, yn eich barn chi, sy'n gwneud arwr? Rhywun diofn a mentrus, dewr a chyhyrog? Rhywun sydd byth yn gwneud camgymeriadau, sydd byth yn flin, sydd bob amser yn achub cam eraill, sy'n helpu eraill ....

Dyma'ch cyfle i bleidleisio! 2011 ydy'r bumed flwyddyn i CNN gynnal arolwg i weld pwy ydy arwyr y gwylwyr. Gallwch bleidleisio dros eich hoff arwr ar CNNHeroes.com neu ar eich ffôn symudol.

**Dyma 10 uchaf 2011, yn nhrefn yr wyddor:**

## Eddie Canales

Cafodd mab Eddie Canales ei barlysu yn ystod gêm bêl-droed yn ei ysgol yn 2001. Sefydlodd *Canales Gridiron Heroes* sy'n rhoi cefnogaeth ariannol ac emosiynol i chwaraewyr pêl-droed ysgolion uwchradd sydd wedi eu parlysu mewn gemau.

## Taryn Davis

21 oed oedd Taryn Davis pan laddwyd ei gŵr yn Irac. Yn 2007, cychwynnodd y project *American Widow* sydd, erbyn hyn, wedi rhoi cymorth i fwy na 900 o weddwon ifanc rhyfel.

## Sal Dimiceli

Trwy golofn papur newydd lleol a'r sefydliad *The Time Is Now To Help* mae Sal Dimiceli yn helpu tua 500 o bobl bob wythnos gyda bwyd, rhent ac anghenion o ddydd i ddydd.

## Derreck Kayongo

Mae prosiect *Global Soap* a sefydlwyd gan Derreck Kayongo yn casglu sebonau sydd wedi cael eu defnyddio'n rhannol mewn gwestai ac yn eu hailgylchu. Ers 2009 mae wedi rhoi tua 150,000 bar o sebon i gymunedau mewn 10 gwlad.

## Diane Latiker

Gan fod cymaint o gangiau yn ei chymdogaeth yn Chicago, agorodd Diane Latiker ei chartref i bobl ifanc yr ardal a dechreuodd gynllun o'r enw *Kids Off the Block*, ac ers 2003 mae'r rhaglen wedi helpu mwy na 1,500 o bobl ifanc.

## Robin Lim

Aeth Robin Lim yn fydwraig wedi i'w chwaer farw o gymhlethdodau yn ystod beichiogrwydd. Ers 2003, mae hi (sy'n cael ei hadnabod fel 'Ibu Robin' neu 'Y Fam Robin') a'i thîm yn Indonesia wedi helpu miloedd o ferched tlawd i gael beichiogrwydd iach.

## Patrice Millet

Ar ôl cael cancr mae Patrice Millet wedi rhoi ei fywyd i helpu plant difreintiedig yn Tahiti. Mae ei raglen pêl-droed yn rhoi offer am ddim, hyfforddiant a bwyd i gannoedd o blant y slymiau ac yn eu dysgu i fod yn ddinasyddion cyfrifol.

## Bruno Serato

Ers 2005, mae'r cogydd Bruno Serato wedi bod yn gweini pasta am ddim i blant tlawd sy'n byw mewn motels yng Nghaliffornia.Mae'n paratoi cinio 7 niwrnod yr wythnos i 300 o blant.

## Richard St. Denis

Ers 2008, mae Richard St. Denis a'i fudiad, *World Access Project*,wedi rhannu cannoedd o gadeiriau olwyn i bobl anabl yng nghefn gwlad México.

## Amy Stokes

Mae Amy Stokes yn ailddiffinio'r gair 'teulu' i blant De Affrica sydd wedi cael eu heffeithio gan HIV/AIDS a thlodi. Mae ei mudiad, *Infinite Family*, wedi cysylltu bron i 500 o bobl ifanc yn eu harddegau gyda bron i 300 o fentoriaid ledled y byd ar y we.

Pa un, yn eich barn chi, ydy prif arwr 2011? Pan gyhoeddwyd enw'r enillydd ar Ragfyr 11eg dywedodd 'Dylai pob mam fod yn iach ac yn gryf a phob genedigaeth yn ddiogel. Dydy'r byd ddim wedi cyrraedd hynny eto'.